TGAU

3010N30-1

DYDD LLUN, 8 EBRILL 2019

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 3: Arholiad Llafar

## HAEN SYLFAENOL

## CYFARWYDDIADAU I'R YMGEISYDD

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S19-3010N30-1) MLP

**TASG GRŴP (TRAFODAETH: DIM MWY NAG 20 MUNUD)**
**40 MARC**

## CYFNOD PARATOI

– Caniateir hyd at 25 munud a'ch amser estynedig i chi baratoi ar gyfer y drafodaeth.

– Yn ystod y cyfnod paratoi ni chaniateir defnyddio unrhyw nodiadau a dderbyniwyd o flaen llaw.

– Caniateir i chi wneud NODIADAU BYR / PWYNTIAU BWLED yn ystod y cyfnod paratoi.

## CYFNOD ARHOLIAD

– Trafodwch y cwestiwn GYDAG AELODAU ERAILL EICH GRŴP gan gynnig rhesymau a thystiolaeth i gadarnhau eich gosodiadau.

– Caniateir i chi ddefnyddio NODIADAU BYR / PWYNTIAU BWLED a wnaethoch yn ystod y cyfnod paratoi yn unig.

**NI CHANIATEIR I CHI DDEFNYDDIO'R TESTUN PRINT NA GEIRIADUR YN YSTOD Y CYFNOD PARATOI NA'R ARHOLIAD.**

**TRAFOD LLUNYDDIAETH**

**NAILL AI: Y MYNYDD GRUG**

**NEU: DIHIROD DYFED – unrhyw DDWY o'r ffilmiau canlynol:**
**Pechod Mary Prout; Wil Cefncoch; Cythraul Cwrw**

| |
|---|
| **Trafodwch beth sy'n gwneud y cymeriadau yn hapus ac yn drist yn y ffilm / ffilmiau a astudiwyd gennych.** |

**Fel grŵp, trafodwch hyn drwy:**

**(i) sôn yn fanwl am olygfeydd penodol [20]**

**(ii) sôn am y modd y mae'r cynhyrchydd wedi dangos y cymeriadau'n hapus neu'n drist yn y ffilm / ffilmiau.**

**Gallwch drafod:**

- **gwisgoedd a cholur**
- **deialog**
- **goleuo**
- **gwaith a thechneg camera**
- **cerddoriaeth a sain [20]**

**Ceisiwch hefyd gyfeirio at y llyfr yn eich trafodaeth.**

**Ceisiwch ddefnyddio rhai termau gwerthfawrogi llunyddiaeth / llenyddiaeth.**

**Cofiwch roi rhesymau dros eich barn.**

**[40]**

**DIWEDD Y PAPUR**